Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales

Gorffenaf 2021

Croeso i e-Fwletin mis Gorffennaf Cymru Iach ar Waith

Mae ein e-fwletin misol yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf gan dîm Cymru Iach ar Waith, gan gynnwys canllawiau Covid-19, newyddion iechyd a llesiant yn y gweithle, dolenni i ymgyrchoedd a digwyddiadau sydd ar ddod ynghyd â diweddariad i chi ar gynlluniau'r rhaglen ar gyfer y dyfodol.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i raglen Cymru Iach ar Waith. Gan fod Llywodraeth Cymru yn parhau i lacio'r cyfyngiadau symud, rydym yn edrych ymlaen at ailafael yn ein rhaglen o weithgareddau ac at weithio ochr yn ochr â chyflogwyr i greu gweithlu iach a chynaliadwy yng Nghymru.

Mae croeso i chi rannu'r e-fwletin hwn gyda'ch cydweithwyr a'ch rhwydweithiau. Gallwch weld yr wybodaeth danysgrifio isod.

Y diweddaraf ynghylch COVID-19

Mae **gwefan Cymru Iach ar Waith** yn siop un stop am wybodaeth, pecynnau cymorth ac adnoddau sy'n gysylltiedig â COVID-19, gan gynnwys asesiadau risg, canllawiau sector, gwybodaeth frechu ac ymgyrchoedd a gwybodaeth iechyd ehangach.

Symudodd Cymru'n llawn i **lefel rhybudd un** ar 17 Gorffennaf a bydd newidiadau pellach i'r rheolau yn yr awyr agored wrth i Gymru gymryd y cam gofalus cyntaf tuag at lefel rhybudd sero newydd.

Yn ddiweddar cyhoeddodd **Llywodraeth Cymru** ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer gweithleoedd a safleoedd sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys pwysigrwydd cyfathrebu â'r gweithlu wrth rannu a lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19. Gan ddefnyddio asesiad risg penodol COVID-19 a thrwy ddilyn dull 4 Cam wedi'i ddiweddaru, gall cyflogwyr liniaru risgiau trwy fabwysiadu agwedd ystyriol.

Gellir gweld cyfeirlyfr cefnogaeth, arweiniad a chwestiynau cyffredin Busnes Cymru **yma**.

Ewch i **wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth am y brechlyn COVID-19. Os ydych chi neu'ch staff i fod i gael brechiad COVID-19 ond ni chysylltwyd â chi, cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth.

Cliciwch **yma** i ddarganfod rhagor am gael cefnogaeth i adfer o COVID-19 (COVID hir).

Model Newydd Cymru Iach ar Waith

Bydd model newydd Cymru Iach ar Waith ar gael i fwy o weithleoedd, bydd yn adlewyrchu natur newidiol gwaith a'r gweithlu, a'i nod fydd diwallu anghenion cyflogwyr ledled Cymru yn well trwy offer asesu anghenion a chefnogaeth a hyfforddiant ar sail grŵp. Fel rhaglen Llywodraeth Cymru, bydd y dyfarniadau'n parhau i fod yn rhan allweddol o'r model newydd fel y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer camau gweithredu cyflogwyr ar iechyd a llesiant.

Rydym wedi gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu dau offeryn ar-lein i asesu parodrwydd cyflogwr i weithredu agweddau at iechyd a llesiant ac anghenion iechyd a llesiant ei weithlu. Os ydych chi'n gyflogwr ac yr hoffech chi helpu i dreialu'r offer newydd hyn, anfonwch e-bost at **decipher-hww@cardiff.ac.uk**.

Wrth i dîm Cymru Iach ar Waith weithio y tu ôl i'r llenni i ddatblygu manylion y rhaglen newydd, bydd ystod o adnoddau ar gael yn fuan, gan gynnwys: podlediadau, adnoddau sy'n benodol i bwnc, astudiaethau achos a gweithdai rhithwir. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd adnoddau ac agweddau newydd ar y rhaglen yn cael eu lansio.

Digwyddiad Canmoliaeth yn sgil Covid-19 Cymru Iach ar Waith

Mae tîm Cymru Iach ar Waith yn cynllunio digwyddiad canmoliaeth rhithwir yn sgil Covid-19 a gynhelir yn hydref 2021 i gydnabod a dathlu cyflogwyr yng Nghymru sydd wedi dangos arferion arloesol wrth addasu i ddiogelu eu gweithlu a'r gymuned ehangach yn ystod y pandemig.
Bydd rhagor o fanylion am y digwyddiad a sut i gyflwyno ceisiadau am y dyfarniadau'n dod yn fuan!

Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi **Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl** i weithio gyda chyflogwyr ledled Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o fuddion cyflogi pobl anabl ac i helpu cyflogwyr i gael gafael ar gyllid a chymorth arall i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol, sy'n aml yn hawdd eu gwneud.

Gan weithio mewn partneriaeth ag Ymgynghorwyr Arbenigol Busnes Cymru mewn cynllun sy'n unigryw i Gymru, mae'r Hyrwyddwyr yn rhoi cefnogaeth am ddim i'ch helpu chi i addasu arferion recriwtio i gael y bobl iawn ar gyfer eich busnes, i gadw neu i ailhyfforddi staff presennol sydd wedi dod yn anabl, neu i sicrhau bod polisïau'r gweithlu ac adnoddau dynol yn gynhwysol.

I ddarganfod rhagor am gynyddu amrywiaeth yn y gwaith ac am fuddion cyflogi pobl anabl a'r gefnogaeth sydd ar gael i wneud hyn, cysylltwch â'r Hyrwyddwyr trwy anfon e-bost at **DPEC@gov.wales**.

Dyddiadau Allweddol

1–7 Awst **Wythnos Bwydo ar y Fron y Byd**
Bydd #WBW2021 yn canolbwyntio ar sut mae bwydo ar y fron yn cyfrannu at oroesiad, iechyd a llesiant pawb, a'r angen i ddiogelu bwydo ar y fron yn fyd-eang.

5 Awst **Diwrnod Seiclo i'r Gwaith**
Cymerwch ran yn nigwyddiad cymudo ar feiciau mwyaf y DU.

Gellir dod o hyd i ddolenni i ystod o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd hefyd trwy **wefan** Cymru Iach ar Waith.

I gofrestru ar gyfer e-fwletinau misol Cymru Iach ar Waith a gweld e-fwletinau blaenorol, cliciwch **yma**.

Rydym yn parhau i gysylltu â sefydliadau lle mae eu Dyfarniad Iechyd yn y Gweithle Cymru Iach ar Waith wedi dod i ben/ar fin dod i ben i gynnig Gwiriad Statws Ailddilysu i ymestyn y dyfarniad 12 mis. Os yw hyn yn berthnasol i'ch sefydliad, anfonwch e-bost at **workplacehealth@wales.nhs.uk**.

Cymru Iach Ar Waith